Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Llanymddyfri
# Queensway
# Llanymddyfri
# Sir Gaerfyrddin
# SA20 0EE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2021**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Llanymddyfri

Mae Coleg Llanymddyfri yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl gydaddysgol annibynnol a sefydlwyd ym 1848. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin, ac yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 18 mlwydd oed. Mae adran yr ysgol baratoadol, ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed, a'r ysgol hŷn, wedi'u lleoli mewn adeiladau ar wahân ar yr un safle.

Mae 224 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 33 o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol. Yn yr ysgol hŷn, mae 191 o ddisgyblion, yn cynnwys 82 o fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae tua 84 ohonynt yn ddisgyblion preswyl.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ardal leol ehangach sy'n ymestyn o Lanelli, Rhydaman a Llanbedr Pont Steffan, a thuag at Sir Benfro.

Mae tua 5% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 45% o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol, a thua 4% o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae tua 49% o ddisgyblion ar gofrestr y coleg o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r coleg yn sefydliad nad yw'n ddetholus yn academaidd, a'i nod yw darparu addysg eang, gytbwys a theilwredig ar gyfer disgyblion o ystod o gefndiroedd, sydd ag amrywiaeth o alluoedd ac anghenion dysgu. Mae'r ysgol baratoadol yn ystyried derbyn disgyblion trwy ymweliad â'r coleg ac asesiadau anffurfiol. Caiff disgyblion sy'n dymuno dechrau yn yr ysgol hŷn eu hasesu mewn Saesneg, mathemateg a rhesymu dieiriau, er mwyn pennu'r rhaglen astudio fwyaf addas.

Caiff gwersi eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r coleg yn addysgu Cymraeg fel ail iaith i bob grŵp yn yr ysgol baratoadol. Yn yr ysgol hŷn, caiff Cymraeg ei haddysgu fel iaith gyntaf ac ail iaith ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, a'i chynnig fel opsiwn i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i Flwyddyn 13.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2013. Penodwyd y warden presennol (pennaeth) ym mis Medi 2019.

Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gynnal arolygiad ffocysedig o'r coleg, gyda ffocws penodol ar safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Ymwelodd arolygwyr â'r coleg ar 10 Mawrth 2021. O ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, roedd y gweithgarwch a gynhaliwyd ar y safle yn gyfyngedig. Fodd bynnag, casglwyd rhagor o dystiolaeth o bell i gefnogi barnau.

## Prif ganfyddiadau

At ei gilydd, mae'r ysgol yn bodloni safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Cryfderau**

- Mae gan y coleg ddiwylliant cryf ar gyfer diogelu, a lles disgyblion sydd wrth wraidd gwaith y coleg.
- Mae'r unigolyn diogelu dynodedig yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ddiogelu, ac yn darparu arweinyddiaeth, arweiniad a chyngor clir i aelodau staff eraill.
- Mae'r llywodraethwr a enwyd sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o arferion a pholisi diogelu.
- Mae pob aelod o staff yn mynychu sesiynau hyfforddiant diogelu mewnol bob tymor, ac yn ogystal ag unigolion diogelu dynodedig y coleg, maent yn mynychu cyrsiau hyfforddiant diogelu allanol priodol.
- Mae polisïau diogelu'r coleg yn fanwl, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac yn cael eu rhannu'n briodol â staff, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Mae gan y coleg system briodol ar gyfer cofnodi a rhannu pryderon ynghylch diogelu gyda'r unigolyn diogelu dynodedig arweiniol a dirprwy unigolion diogelu dynodedig. Mae staff yn deall hyn.
- Mae'r coleg yn cyfeirio pryderon ynghylch diogelu at asiantaethau allanol, pan fydd yn briodol.
- Mae'r coleg yn ymgymryd â gweithdrefnau recriwtio diogel yn briodol.
- Mae'r coleg yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer staff i rannu pryderon ynghylch diogelu a lles.
- Mae aelodau staff yn teimlo'n hyderus i adrodd am unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn gysylltiedig â'u cydweithwyr.
- Mae cod ymddygiad clir ar gyfer ymddygiad priodol gan staff pan fyddant o gwmpas disgyblion.
- Ceir gweithdrefnau cadarn ar gyfer staff a disgyblion i gofnodi pryderon ynghylch lles, yn cynnwys achosion honedig o fwlio. Caiff gwybodaeth a gofnodir ar y system ar-lein hon ei rhannu ag aelodau staff perthnasol.

**Meysydd i'w datblygu**

- Sicrhau, os bydd yr angen yn codi, bod yr holl wrandawiadau disgyblu staff sy'n gysylltiedig â phryderon honedig ynghylch diogelu, yn cael eu cwblhau, a bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chyrff rheoleiddio eraill, lle bo'n briodol.
- Cryfhau rôl y dirprwy unigolion diogelu dynodedig i feithrin arbenigedd ar y cyd, ac osgoi gorddibyniaeth ar yr unigolyn diogelu dynodedig i arwain ar bob mater diogelu.
- Cryfhau'r broses atgyfeirio i asiantaethau allanol i sicrhau bod y coleg yn mynd i'r afael ag atgyfeiriadau pan na dderbynnir adborth.
- Cryfhau llywodraethu i sicrhau her fwy cadarn gan y corff llywodraethol wrth ddatblygu polisïau diogelu, a chynnwys hyfforddiant diogelu rheolaidd ar gyfer pob un o'r llywodraethwyr.

- Gwella cofnodi gwybodaeth yn yr holl gofnodion diogelu o gyfarfodydd i gynnwys rhestr o fynychwyr.
- Sicrhau yr ymdrinnir â holl gŵynion Cam 3 yn unol â pholisi cwynion y coleg.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/05/2021